Dadansoddi ar gyfer Polisi

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF:
22/2018
DYDDIAD CYHOEDDI:
19/04/2018

# Archwilio'r broses o ddiddymu Cymunedau yn Gyntaf yn raddol ar sail profiadau Cyrff Cyflawni Arweiniol

© Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-78937-079-9

**Archwilio'r broses o ddiddymu Cymunedau yn Gyntaf yn raddol ar sail profiad Cyrff Cyflawni Arweiniol**

Awdur: Katrina Morrison

Adroddiad Ymchwil Llawn: Morrison K a Griffiths L (2018) *Archwilio'r broses o ddiddymu Cymunedau yn Gyntaf yn raddol ar sail profiad Cyrff Cyflawni Arweiniol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 22/2018.
Ar gael ar: http://gov.wales/statistics-and-research/exploring-phasing-out-communities-first/?lang=cy

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:
Katrina Morrison
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 8528
E-bost: Katrina.Morrison@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


1. Cyflwyniad/Cefndir ........ 2
2. Y Prosiect Ymchwil ........ 8
3. Canfyddiadau ........ 11
4. Casgliadau ........ 30
5. Cyfeiriadau ........ 33

Atodiad A ........ 34

# 1. Cyflwyniad/Cefndir

## Cefndir Cymunedau yn Gyntaf

1.1 Yn 2001 sefydlwyd Cymunedau yn Gyntaf fel prif raglen Llywodraeth Cymru ar gyfer trechu tlodi ac ers i'r rhaglen gychwyn bu sawl gwerthusiad a dadansoddiad o'i strwythur a'i nodau. O ganlyniad, yn 2012 newidiwyd strwythur Cymunedau yn Gyntaf er mwyn darparu gwasanaethau drwy "nifer llai o ardaloedd mwy"[1] drwy sefydlu Cyrff Cyflawni Arweiniol. Yn ogystal â hyn, y bwriad oedd i'r rhaglen gael "ei chyflawni a'i monitro yn erbyn Fframwaith Canlyniadau sy'n gyson yn genedlaethol, ac sy'n cyd-fynd â'r egwyddor Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau"[2].

1.2 Fodd bynnag, roedd llawer o ganlyniadau'r rhaglen a werthuswyd yn amrywio. Wrth gyhoeddi'r bwriad i ddiddymu Cymunedau yn Gyntaf yn raddol, ar 14 Chwefror 2017, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ar y pryd "Ni all un rhaglen unigol fynd i'r afael â thlodi. Mae arnom angen dull cyfannol sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac aelodau'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus"[3]. Eglurodd cyn Ysgrifennydd y Cabinet fod angen i ddull Llywodraeth Cymru o drechu tlodi gael ei addasu ond y dylid amddiffyn y gwaith da a gyflawnwyd gan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru:

> *… byddaf yn mabwysiadu dull gofalus wrth fwrw ymlaen, gan geisio cadw rhai o'r agweddau mwyaf effeithiol ar y gwaith a wnaethpwyd gan Cymunedau yn Gyntaf… Byddaf yn sefydlu cronfa etifeddiaeth gwerth £6 miliwn, i'w chyflwyno ym mis Ebrill 2018 a fydd yn galluogi awdurdodau lleol, mewn ymgynghoriad â chymunedau a byrddau gwasanaethau cyhoeddus, i gynnal rhai o'r asedau cymunedol neu'r ymyraethau mwyaf effeithiol a ddatblygwyd gan Cymunedau yn Gyntaf.* [4]
>
> - **Carl Sergeant – Cyn Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**

---

[1] Cymunedau yn Gyntaf: Adroddiad Terfynol y Gwerthusiad o'r Broses – Crynodeb Gweithredol (2015), Tud.1: http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/150226-communities-first-process-evaluation-summary-cy.pdf

[2] Ibid. (Gallwch gael mwy o wybodaeth ar Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau ar https://www.tyf.com/wp-content/uploads/2015/casestudies/english/Communities%20First%20RBA.pdf)

[3] Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Y Cyfarfod Llawn 14/02/2017: Pwynt 202: http://record.assembly.wales/Plenary/4083#A485

[4] Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Y Cyfarfod Llawn 14/02/2017: Pwyntiau 202-203: http://record.assembly.wales/Plenary/4083#A485

1.3 Sefydlwyd y Tîm Pontio Cymunedau yn Gyntaf gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol i ddiddymu Cymunedau yn Gyntaf yn raddol yn ystod 2017-18. Mae'r Tîm Pontio Cymunedau yn Gyntaf hefyd yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu dull trawslywodraeth newydd o greu cymunedau cydnerth, gan weithio'n agos â chydweithwyr yn yr Is-adran Cymunedau. Mae cefnogi partneriaid cyflawni i wneud penderfyniadau effeithiol o ran y ffordd ymlaen yn hanfodol bwysig er mwyn helpu i leihau'r effeithiau ar gymunedau, rhanddeiliaid a staff.

**Yr hyn yr ydym wedi ei ddysgu am raglen Cymunedau yn Gyntaf 2001-2017**

*Gwerthusiadau Allweddol*

1.4 Cynhaliwyd sawl gwerthusiad o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ers 2001 sydd wedi amlinellu asesiadau amrywiol o'r rhaglen ac argymhellion ar gyfer gwelliannau a newid. Rydym yn rhoi crynodeb o rai o'r prif werthusiadau ac addasiadau i'r rhaglen isod.

1.5 Yn y Gwerthusiad o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn 2011, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru[5], cyflwynwyd barn amrywiol o gynnydd Cymunedau yn Gyntaf, gan amlygu rhai canfyddiadau cymharol gadarnhaol ond gan godi hefyd diffyg dull manwl gywir o fesur effaith Cymunedau yn Gyntaf. Awgrymodd y canfyddiadau fod defnyddio bod heb waith fel procsi ar gyfer amddifadedd cyffredinol wedi cael "effaith gadarnhaol, er yn gyfyngedig, ychwanegol a phriodoladwy yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf"[6].

1.6 Er bod hyn yn awgrymu llwyddiant, mae'r awduron yn nodi "Dylid pwysleisio, er y gellir priodoli'r gwelliant hwn i Cymunedau yn Gyntaf, nad yw'n cynnwys 'cynnyrch' neu 'ganlyniadau' uniongyrchol ymyriadau bod heb waith Cymunedau yn Gyntaf yn unig"[7]. Mewn geiriau eraill, efallai nad ymyriadau' bod heb waith yn unig a arweiniodd at y newid hwn. Fodd bynnag, nodwyd newidiadau cadarnhaol eang mewn nifer o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac ymhlith y rhai a nodwyd amlaf roedd "ymgysylltu'n well â thrigolion, datblygiad gallu cymunedol a sefydlu dulliau ymgynghori"[8].

---

[5] Gwerthuso Cymunedau yn Gyntaf (2011).

[6] Gwerthuso Cymunedau yn Gyntaf (2011), Tud. 191.

[7] Ibid.

[8] Gwerthuso Cymunedau yn Gyntaf (2011), Tud. 191.

1.7 Yn 2012 ad-drefnwyd y rhaglen i gynnwys Fframwaith Canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf gyda'r nod o alluogi canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf i gael eu monitro'n well ar lefel fwy safonol yn genedlaethol. Nododd gwerthusiadau blaenorol fod diffyg fframwaith canlyniadau yn broblem. Ailstrwythurwyd y rhaglen hefyd yr adeg honno i'r trefniant Cyrff Cyflawni Arweiniol / Clystyrau sydd wedi parhau nes y cyhoeddwyd bod y rhaglen yn dod i ben.

1.8 Yn sgil y newidiadau cenedlaethol hyn yn 2012, rhoddodd y gwerthusiad o'r broses Cymunedau yn Gyntaf yn 2015 a gynhaliwyd gan Ipsos MORI a Wavehill Consulting[9] ar ran Llywodraeth Cymru ystyriaeth fwy penodol i'r ffordd y cyflawnwyd y rhaglen ac i ba raddau yr oedd cynllun y rhaglen yn cyflawni ei nodau. Amlinellodd y gwerthusiad nifer o elfennau cadarnhaol yn benodol yn ymwneud â gweithio mewn partneriaeth a'r Fframwaith Canlyniadau ar y Cyd a helpodd i gynorthwyo'r broses o "wella dealltwriaeth o'r Rhaglen yn allanol, ac wedi helpu i gynllunio a chyflawni gweithgareddau mwy penodol ar gyfer y Rhaglen"[10]. Fodd bynnag, roedd nifer o broblemau yn parhau o hyd gyda strwythur sefydliadol a chyflawni Cymunedau yn Gyntaf, gan gynnwys canfyddiad o ddiffyg arweiniad mewn perthynas â dyrannu cyllid a phryderon ynghylch diffyg arbenigedd wrth gasglu data monitro o fewn y Clystyrau. Codwyd pryderon hefyd ynghylch a oedd prosiectau Cymunedau yn Gyntaf yn cyrraedd y rhai yr oedd angen eu help fwyaf. Nodwyd bod angen rhannu a chyfathrebu gwybodaeth a phrofiad yn gyson er mwyn sicrhau bod y gymuned yn parhau i gyfranogi ac ymwneud â'r rhaglen.

*Cymunedau yn Gyntaf – Yr Hyn a Ddysgwyd, Adroddiad 2017*

1.9 Mae'r adroddiad diweddaraf ar Cymunedau yn Gyntaf wedi cael ei gyhoeddi ers y cyhoeddiad bod y rhaglen yn dod i ben. Cyhoeddodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau adroddiad yn ystod haf 2017[11] a amlinellodd nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru yn dilyn y penderfyniad i ddirwyn y rhaglen i ben yn raddol. Mae'r adroddiad, sy'n deillio

---

[9] Cymunedau yn Gyntaf: gwerthusiad o'r broses (2015): http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/150226-communities-first-process-evaluation-cy.pdf

[10] Cymunedau yn Gyntaf: gwerthusiad o'r broses (2015), Tud 95: http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/150226-communities-first-process-evaluation-cy.pdf

[11] Cymunedau yn Gyntaf – yr hyn a ddysgwy d (2017): http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11141/cr-ld11141-w.pdf

o ymgynghori â nifer o randdeiliaid Cymunedau yn Gyntaf, yn cynnwys adborth mewn perthynas â sawl agwedd ar y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, gan gynnwys llwyddiannau a chyfyngiadau canfyddedig a'r safbwyntiau cychwynnol ar ddechrau'r trefniadau pontio. Yn dilyn hynny, ym mis Hydref 2017[12] cyhoeddwyd papur arall gan y Pwyllgor a oedd yn cynnwys ymatebion Llywodraeth Cymru i'r argymhellion a myfyrdodau ar ymatebion Llywodraeth Cymru.

1.10 Roedd y Pwyllgor wedi codi nifer o bryderon ac argymhellion dilynol yn ei adroddiad, er enghraifft mewn perthynas â hygyrchedd y canllawiau cychwynnol a ddarparwyd i Gyrff Cyflawni Arweiniol ar gyfer diddymu Cymunedau yn Gyntaf yn raddol a dyfodol asedau cymunedol a allai fod mewn perygl bellach. Roedd yr adroddiad hefyd yn pwysleisio'r angen i ystyried effaith ddilynol y gallai dod â'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ben ei chael ar wasanaethau cymorth eraill ledled Cymru, sef gwasanaethau y mae Cymunedau yn Gyntaf yn helpu i'w darparu ar hyn o bryd.

1.11 Derbyniodd Llywodraeth Cymru fwyafrif o argymhellion y Pwyllgor ac eithrio cyhoeddi "strategaeth trechu tlodi bwrpasol"[13]. Yn hytrach, mae Llywodraeth Cymru yn amlygu pwysigrwydd strategaethau Symud Cymru Ymlaen a Ffyniant i Bawb a'u digonolrwydd o ran amlinellu ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i drechu tlodi yng Nghymru o fewn cyd-destun ehangach Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er gwaethaf y farn wahanol ynghylch a oes angen strategaeth trechu tlodi bwrpasol newydd ai peidio, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cael ei chydnabod gan bawb yn ffactor pwysig wrth helpu i greu'r sylfaen ar gyfer dull newydd cyfannol o drechu tlodi drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus newydd, creu cynlluniau llesiant a darparu sylfaen ar gyfer llunio prosesau asesu newydd[14].

1.12 Daw'r adroddiad i ben drwy bwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu â'r gymuned wrth i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus newydd lunio eu cynlluniau llesiant a'r bwriad i archwilio rolau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn y

---

[12] Cymunedau yn Gyntaf – yr hyn a ddysgwyd – adroddiad llawn (2017) http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11238/cr-ld11238-w.pdf

[13] Cymunedau yn Gyntaf – yr hyn a ddysgwyd – adroddiad llawn (2017), Tud. 38: http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11238/cr-ld11238-w.pdf

[14] Ibid.

strategaeth newydd wrth fwrw ymlaen a'r ffordd y caiff cynlluniau llesiant eu llunio ar draws awdurdodau lleol.

*Symud Cymru Ymlaen a Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol*

1.13 Mae gwella cyfleoedd ar gyfer gwaith a chynhwysiant cymdeithasol, yn ogystal â chynnal cymorth ar gyfer cymunedau, yn cael eu cynnwys fel rhan o raglen lywodraethu "Symud Cymru Ymlaen"[15] Llywodraeth Cymru a amlinellodd nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-21 drwy addo gwneud Cymru yn lle mwy ffyniannus ac iach i fyw.

1.14 Yn ei ragair i'r rhaglen Symud Cymru Ymlaen amlinellodd y Prif Weinidog sut mae "ffyrdd newydd o weithio gan gynnwys rhaglenni cydgysylltiedig sy'n atgyfnerthu ac yn adeiladu ar yr hyn y mae pobl a chymunedau yn ei wneud eu hunain"[16] yn allweddol wrth fynd i'r afael â rhai o'r materion cymdeithasol sylfaenol sy'n wynebu'r wlad ac adleisio gweledigaeth cyn Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ar gyfer trechu tlodi yng Nghymru ar ôl Cymunedau yn Gyntaf. Mae nodau Llywodraeth Cymru wedi'u seilio ar bedwar maes allweddol:

- "Ffyniannus a Diogel"
- "Iach ac Egnïol"
- "Uchelgeisiol ac yn Dysgu"
- "Unedig a Chysylltiedig"

Mae "Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol"[17] yn amlinellu sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflawni ei nodau ar draws y meysydd hyn.

1.15 Er enghraifft, bydd ymrwymiad i feithrin amgylchedd o "gydnerthedd economaidd" drwy "gynllun cyflogadwyedd" newydd a "chontract economaidd"[18] ar gyfer Cymru yn anelu at ymdrin ag anghenion unigol mewn perthynas â chyflogaeth yn ogystal ag ysgogi twf ar gyfer Cymru. Ystyrir bod

[15] Symud Cymru Ymlaen: Y Rhaglen Lywodraethu (2017): http://gov.wales/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-cy.pdf

[16] Symud Cymru Ymlaen: Y Rhaglen Lywodraethu Government (2017): Tud.3: http://gov.wales/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-cy.pdf

[17] Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol (2017): http://gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf

[18] Ibid, Tud.8: http://gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf

hyn yn cyd-fynd â model rhanbarthol i osgoi un dull eang sy'n gweddu i bawb wrth ymdrin â datblygu economaidd.

1.16 Yn ogystal â chefnogi cynnydd a datblygiad economaidd, nod Ffyniant i Bawb yw helpu cymunedau i ddod yn fwy cydnerth a chydlynus. Mae'r broses o gyflwyno "rhaglen wirfoddoli unedig" ac ymrwymiad i gynnal cyfleusterau lleol megis llyfrgelloedd ac amgueddfeydd[19] oll yn anelu at sicrhau bod gan gymunedau gyfleusterau ar waith i greu lle cydlynus sy'n fywiog yn gymdeithasol i fyw ynddo. Bydd ffocws newydd ar sicrhau bod cymorth y blynyddoedd cynnar ar gael ar gyfer plant[20] yn ogystal â system gofal cymdeithasol gynaliadwy[21] gyda phersbectif ar ymyrryd yn gynnar a bydd helpu aelodau o'r gymuned i helpu eu hunain hefyd yn ceisio torri'r cylch tlodi a rhoi'r cyfle i bawb lwyddo.

[19] Ibid, Tud. 20: http://gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf

[20] Ibid, Tud. 23: http://gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf

[21] Ibid, Tud. 25: http://gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf

# 2. Y Prosiect Ymchwil

### Nodau ac Amcanion

2.1 Prif nod yr adroddiad hwn yw archwilio profiadau wrth ddiddymu Cymunedau yn Gyntaf yn raddol, o safbwynt cynrychiolwyr y Cyrff Cyflawni Arweiniol, a pha elfennau o strwythur a darpariaeth Cymunedau yn Gyntaf a oedd yn effeithiol a pha rai nad oeddent yn effeithiol.

2.2 Er mai prosiect ymchwil bach yw hwn, ei nod yw darparu mewnwelediad i:

- Farn cynrychiolwyr y Cyrff Cyflawni Arweiniol ar strwythurau a threfniadau llywodraethu Cymunedau yn Gyntaf, gan gynnwys profiadau o weithio mewn partneriaeth
- Barn cynrychiolwyr y Cyrff Cyflawni Arweiniol ar y rhan a chwaraeir gan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a'r gymuned, a'r broses o ymgysylltu â hwy
- Y ffyrdd y cafodd penderfyniadau eu gwneud mewn perthynas â pha wasanaethau y byddai'r awdurdod lleol yn parhau i'w cefnogi
- Profiadau cynrychiolwyr y Cyrff Cyflawni Arweiniol mewn perthynas â'r cymorth a'r canllawiau a ddarparwyd gan dîm Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru.

2.3 Nod pellach y prosiect yw sicrhau bod gwersi yn cael eu dysgu nid yn unig o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn fwy cyffredinol ond hefyd o'r broses o ddiddymu Cymunedau yn Gyntaf yn raddol.

### Dull

2.4 Roedd yr ymchwil yn cynnwys cyfweliadau manwl lled-strwythuredig yn gofyn amrywiaeth o gwestiynau i arweinwyr y Cyrff Cyflawni Arweiniol o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru. Teimlwyd y byddai cyfweliadau manwl yn arwain at wybodaeth a mewnwelediad cyfoethog. O ganlyniad i gyfyngiadau ar adnoddau, cynhaliwyd 8 cyfweliad gydag arweinwyr y Cyrff Cyflawni Arweiniol o uchafswm o 18 Bwrdd Cyflawni Arweiniol yng Nghymru.

*Sampl*

2.5 Roedd y sampl yr oedd gennym y capasiti i'w chyfweld yn llai o lawer na chyfanswm nifer y Cyrff Cyflawni Arweiniol sy'n rhan o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Oherwydd cyfyngiadau gweithredol roedd yn angenrheidiol llunio rhestr o feini prawf er mwyn dewis ein sampl. Nod yr ymchwil oedd sicrhau

bod y sampl gynrychioliadol orau yn cael ei chyfweld o gofio’r cyfyngiadau ar adnoddau a’r goblygiadau moesegol.

2.6 Datblygwyd y sampl o bobl i’w cyfweld gan ddefnyddio meini prawf allweddol:

- Daearyddiaeth (i sicrhau bod Cymru gyfan yn cael ei chwmpasu)
- Cyfnod o amser yn y swydd (yn ddelfrydol o leiaf 3 blynedd yn y swydd er mwyn iddynt allu darparu mewnwelediad dros flynyddoedd diweddaraf Cymunedau yn Gyntaf).
- Am resymau moesegol, penderfynodd y tîm ymchwilio beidio â chyfweld ag unrhyw unigolion a oedd o bosibl yn wynebu cael eu diswyddo adeg y cyfweliadau.

*Cyfweliadau*

2.7 Anfonwyd neges e-bost at holl brif gysylltiadau’r Cyrff Cyflawni Arweiniol a ddarparwyd gan y tîm Pontio Cymunedau yn Gyntaf yn eu hysbysu am y prosiect ymchwil arfaethedig. Anfonwyd neges e-bost ddilynol at y Cyrff Cyflawni Arweiniol y dewiswyd eu cyfweld yn eu gwahodd i drefnu cyfweliad yn ystod cyfnod cychwynnol o bythefnos ym mis Tachwedd 2017. Gwnaeth y tîm ymchwilio ei orau glas i ymateb i geisiadau neu awgrymu dyddiadau eraill yn ôl yr angen. Cynhaliwyd yr holl gyfweliadau rhwng 15 Tachwedd 2017 ac 11 Ionawr 2018.

2.8 Cynhaliwyd cyfweliadau ffôn lled-strwythuredig gydag 8 arweinydd o Gyrff Cyflawni Arweiniol er mwyn deall yn llawn eu profiadau a’u safbwyntiau mewn perthynas â dulliau gweithredu Cymunedau yn Gyntaf yn ogystal â’r broses o ddiddymu’r rhaglen yn raddol. Hyd pob cyfweliad oedd rhwng 25 a 45 munud.

2.9 Drwy ddefnyddio fformat cyfweld lled-strwythuredig, roedd yn bosibl i’r cyfweliadau gwmpasu pynciau penodol ond caniatáu i’r rheiny a gafodd eu cyfweld drafod cysylltiadau â phynciau na chawsant eu holi’n benodol yn eu cylch. Roedd hefyd yn caniatáu i’r cyfwelydd eu holi ymhellach am eu hatebion a gofyn am eglurhad ar bwyntiau penodol, gan gyfoethogi’r data.

Roedd y canllaw trafod yn canolbwyntio ar bum pwnc eang:

- Strwythur Cymunedau yn Gyntaf
- Gweithio mewn partneriaeth
- Ymgysylltu â'r gymuned
- Diddymu Cymunedau yn Gyntaf yn raddol
- Tîm Pontio Cymunedau yn Gyntaf a chanllawiau

Gallwch weld copi o'r canllaw trafod yn Atodiad A.

2.10 Cynhaliwyd y cyfweliadau dros y ffôn a'u recordio gyda chaniatâd llawn y cyfranogwyr drwy dictaffon ac yna'u trawsgrifio er mwyn sicrhau bod manylion y profiadau yn cael eu cofnodi'n drylwyr. Cynhwysir sylwadau gair-am-air gan y rheiny a gafodd eu cyfweld sy'n dangos pwyntiau allweddol a wnaed yng ngeiriau'r ymatebwyr, fodd bynnag, ni chaiff y cyfranogwyr na'r Cyrff Cyflawni Arweiniol eu henwi yn yr adroddiad.

# 3. Canfyddiadau

3.1 Roedd cyfweliadau gyda chynrychiolwyr y Cyrff Cyflawni Arweiniol yn rhoi mewnwelediad yn nhermau'r gwersi cyffredinol a ddysgwyd o'r rhaglen ei hun yn ogystal â'r broses bontio/diddymu yn raddol a'r canllawiau a ddarparwyd gan y Tîm Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r holl safbwyntiau a nodir yn y canfyddiadau yn safbwyntiau gwrthrychol sy'n perthyn i gynrychiolwyr y Cyrff Cyflawni Arweiniol a gafodd eu cyfweld. O ganlyniad, efallai na fyddant yn cynrychioli'n llawn y safbwyntiau ar draws y Cyrff Cyflawni Arweiniol yng Nghymru neu o fewn y Corff Cyflawni Arweiniol ei hun. Fodd bynnag, maent yn cyflwyno nifer o themâu a phynciau sy'n ailgodi ar draws y cyfweliadau sy'n adlewyrchu profiadau uniongyrchol y rhai sy'n gweithio o fewn y rhaglen.

3.2 Yn anffodus, nid yw'n bosibl rhoi adroddiad manwwl ar bob trawsgrifiad. Felly, mae'r canfyddiadau wedi'u cyflwyno yn nhrefn gyfatebol y canllaw trafod a'u trefnu ar sail themâu pwysig sydd wedi dod i'r amlwg wrth ddadansoddi'r trawsgrifiadau.

3.3 Ar y cyfan, mae'r pwyntiau trafod yn gyffredinol eu natur er mwyn osgoi cyfeirio at unrhyw Gorff Cyflawni Arweiniol yn uniongyrchol ac mae unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod Corff Cyflawni Arweiniol yn uniongyrchol hefyd wedi cael ei dileu o'r adroddiad.

**Strwythur Cymunedau yn Gyntaf**

3.4 Ymhlith y themâu cyffredinol a ddeilliodd o'r rhan hon o'r drafodaeth roedd yr angen i gadw pethau yn syml a chyson i sicrhau proses sefydlu strwythurol effeithiol. Roedd hefyd angen sicrhau bod y gymuned yn parhau i roi mewnbwn ystyrlon cyhyd ag y bo'n bosibl o fewn strwythur y rhaglen. Trafodwyd manteision ac anfanteision y strwythur cyn 2012-13 a'r newid i weithio fel Cyrff Cyflawni Arweiniol a chlystyrau ar ôl 2012-13 yn fanwl er bod y trefniadau sefydliadol cyfredol yn amrywio ar draws y Cyrff Cyflawni Arweiniol a gafodd eu cyfweld.

3.5 Nododd y rheiny a gafodd eu cyfweld fod y newid i weithio fel Cyrff Cyflawni Arweiniol a chlystyrau, a oedd yn rhan o newidiadau strwythurol 2012-13, yn newid cadarnhaol am nifer o resymau gwahanol. Roedd un Corff Cyflawni Arweiniol yn credu fod cael un prif Gorff Cyflawni Arweiniol canolog a chyfunol ar gyfer cyrff partner yn fantais oherwydd bod hynny'n arbed amser yn cysylltu

â nifer o bobl wahanol ynghylch prosiectau. O ganlyniad, roedd hyn yn arbed gwaith ac adnoddau yr oedd eu hangen yn flaenorol ar gyfer teithio a chyfathrebu â nifer o uwch gysylltiadau rhaglenni.

*…they [the partners] were going to one senior person rather than having to meet with various different people, so it maximised their resources.*

Yn ogystal â hyn, nodwyd bod y broses o ailstrwythuro i weithio fel Cyrff Cyflawni Arweiniol a chlystyrau wedi helpu i feithrin dull mwy cyson o gyflawni'r rhaglen. Roedd yn haws darparu'r un gwasanaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau ar draws yr ardaloedd clwstwr.

*I do think it was a positive sort of move because when there were different LDBs, things were being delivered differently across the communities.*

3.6 Nododd rhai cynrychiolwyr fod y dulliau mesur canlyniadau penodol wedi helpu i feithrin cysondeb o ran yr hyn a ddarparwyd. Roedd hyn oherwydd y byddai'n bosibl asesu rhaglenni ar draws yr ardaloedd clwstwr yn y pen draw yn erbyn meincnodau ansawdd cyson a ddarparwyd gan y dulliau mesur canlyniadau. Fodd bynnag, nid oedd consensws ar y farn hon ar draws y cyfweliadau. Roedd rhai cynrychiolwyr yn teimlo bod y dulliau mesur canlyniadau wedi cyflwyno rhwystr i rai mathau o ymgysylltu â'r gymuned ac wedi lleihau hyblygrwydd gan eu bod yn rhy ragnodol.

*…we had our outcomes which I think were a good idea but ultimately then people didn't have the flexibility… You know we had to be more prescriptive so it was more difficult then for them to have total buy in because they wanted what they wanted rather than what the need was.*

3.7 Nododd Corff Cyflawni Arweiniol arall mai un o fanteision ailstrwythuro'r rhaglen oedd y gallu cynyddol i gydweithredu o fewn un Corff Cyflawni Arweiniol trosfwaol a hefyd y gallu i wneud defnydd gwell o arbenigedd ymhlith unigolion ar draws clystyrau o gymharu â'r strwythurau cyn 2012-13.

*It was very difficult because it became very localised and there wasn't a lot of collaborative working so to speak - since it's been brought into local government it's much better … The governance around it is much more substantial to be able to support a programme like this.*

Adleisiwyd y teimlad hwn gan ymatebydd arall a gafodd ei gyfweld a oedd yn teimlo nad oedd digon o arbenigedd cyn 2012 o fewn cymunedau unigol a byrddau partneriaeth i reoli'r rhaglen. Teimlwyd bod y ffaith bod y trefniadau llywodraethu wedi newid i gael eu goruchwylio gan eu hawdurdod lleol wedi cryfhau strwythur Cymunedau yn Gyntaf.

3.8 At hynny, nododd Cyrff Cyflawni Arweiniol a oedd wedi dewis newid eu trefniant llywodraethu i ffordd o weithio yn seiliedig ar "un cynllun" neu "gynllun sengl" fod nifer o fanteision ynghlwm wrth y gwaith ailstrwythuro a oedd yn caniatáu iddynt gyflwyno un cynllun cyflawni yn hytrach na chynlluniau lluosog gan bob clwstwr. Roedd y rheiny a gafodd eu cyfweld yn teimlo fod y cyfle i gyfuno adnoddau a thimau ymhellach yn arwain at strwythurau llywodraethu cryfach a symlach.

*... so when the Welsh Government made the offer of being able to switch to one plan we very much saw that as an opportunity to be able to put all the projects into a pot; assess the projects look at what's working – really put a focus on what contributes to the journey towards employment.*

Amlygodd y Cyrff Cyflawni Arweiniol a oedd wedi mabwysiadu cynllun sengl sut yr oedd arferion gwaith mwy hyblyg ar draws y clystyrau wedi bod o gymorth i weithio mewn partneriaeth o fewn y rhaglen. Caiff y manteision pellach sydd ynghlwm wrth ffyrdd o weithio sy'n seiliedig ar gynllun sengl eu trafod yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

3.9 Fodd bynnag, er gwaethaf agweddau cadarnhaol ar drefniant strwythurol y rhaglen, codwyd pryderon gan rai bod y drefn clystyrau a Chyrff Cyflawni Arweiniol wedi arwain at brosesau beichus a rhagnodol, yn arbennig mewn perthynas â materion yn ymwneud â'r rhan y mae'r gymuned yn ei chwarae a hefyd materion ariannol / caffael. O ganlyniad, roedd pryderon ynghylch diffyg gallu i ymateb yn effeithlon i anghenion newidiol y gymuned. Er enghraifft, roedd y rheiny a ddywedodd bod lefelau da o ymgysylltu'n strategol â'r gymuned cyn 2012 yn codi pryderon ynghylch yr hyn a nodwyd fel dull mwy rhagnodol ar ôl 2012:

*We've always had good representation from the community, especially in the earlier days, probably before 2012. I think once we had the teams [clusters] in place people felt it was more prescriptive.*

At hynny, amlygwyd cyfyngiadau o ran symud cyllidebau fel problem gan rai o gynrychiolwyr y Cyrff Cyflawni Arweiniol. Er eu bod yn cydnabod bod angen cael gweithdrefnau ar gyfer dyrannu cyllid, canfuwyd bod yr amser y mae Llywodraeth Cymru yn ei gymryd i wneud penderfyniadau yn broblematig. Roedd un cynrychiolydd o Gorff Cyflawni Arweiniol yn teimlo bod hyn wedi gwella dros y blynyddoedd drwy feithrin perthynas waith dda rhyngddynt hwy a Llywodraeth Cymru:

*…we built quite a good relationship with Welsh Government and I think that's probably the key – building that good relationship with the team.*

3.10 Fodd bynnag, dywedodd ymatebydd arall mai problem allweddol yn ei dyb ef oedd yr angen i gael model "hybrid" lle ceir cydbwysedd rhwng hyblygrwydd a rheoleiddio er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn ymateb i anghenion eu cymunedau.

*…something that's in between would be probably more ideal where again there's ability to move finances quicker, avoid some of the necessary red tape but it is cumbersome red tape within the LA because communities are flexible, ephemeral things – changes happen quickly.*

3.11 Yn ychwanegol at y pwynt hwn sy'n ymwneud â chyfyngiadau a "biwrocratiaeth", roedd canfyddiad ymhlith rhai o'r Cyrff Cyflawni Arweiniol a gafodd eu cyfweld bod newid Cymunedau yn Gyntaf o fod yn rhaglen a oedd yn seiliedig ar gyfranogiad y gymuned yn unig i fod yn rhaglen sy'n seiliedig ar ganlyniadau dan reolaeth awdurdodau lleol wedi creu gwahaniaeth rhwng yr hyn a fwriadwyd gan y drefn newydd a'r hyn yr oedd cymunedau a oedd wedi bod yn rhan o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn flaenorol yn ei ddisgwyl o hyd:

*…communication of what it was and what it is was quite hard to manage through the change – people still expected the same things that Communities First had done 10 years before.*

Nodwyd hefyd bod anawsterau wrth gynnal y lefel o ymgysylltu â'r gymuned fel problem sydd wedi codi wrth addasu'r rhaglen yn 2012-13.

*I think it has been much more difficult to engage people in a programme that's council run compared to something that has local momentum.*

**Gweithio mewn Partneriaeth**

3.12 Y thema drosfwaol a oedd yn perthyn i brofiadau'r rhan fwyaf o'r rheiny a gafodd eu cyfweld mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth oedd pwysigrwydd cyfathrebu. Darparodd y Cyrff Cyflawni Arweiniol enghreifftiau amrywiol sy'n dangos yr hyn a oedd, yn eu barn hwy, yn `arferion llwyddiannus ac effeithiol wrth weithio mewn partneriaeth.

3.13 Yn gyntaf, teimlwyd bod sicrhau dull cydlynol o weithio mewn partneriaeth yn ystod cyfnod cynllunio cynnar prosiectau yn ffactor pwysig. Roedd rhai o'r rheiny a gafodd eu cyfweld yn teimlo bod chwarae rhan a chyfathrebu yn gynnar o ddechrau prosiect yn galluogi unrhyw faterion yn ymwneud ag adnoddau a materion eraill i gael eu codi yn agored ac ar gam cynnar o'r prosiect. O ganlyniad, gellid nodi blaenoriaethau partneriaid unigol yn glir ar ddechrau'r rhaglen – byddai hyn wedyn yn llai o rwystr yn ddiweddarach yn y broses.

3.14 Roedd y syniad o nodau cyffredin a blaenoriaethau ar y cyd yn thema gref mewn nifer o gyfweliadau. Amlygwyd nodau clir ar y cyd â chyfathrebu gonest fel nodweddion allweddol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol oherwydd teimlwyd bod cyd-ddealltwriaeth gyflawn o gylch gwaith y rhaglen yn fater pwysig:

*I think it's about identifying common goals … no programme on its own is able to support everybody's complex needs. It becomes easier to support partnership working when there is that very clear understanding about the boundaries of programmes and what their objectives are…what they can and can't do.*

3.15 Adleisiwyd yr angen i gael cyd-ddealltwriaeth o gwmpas, cyfyngiadau a diben y rhaglen gan Gorff Cyflawni Arweiniol arall. Ym marn y Corff Cyflawni Arweiniol hwn, roedd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, yn y pen draw, wedi ceisio cynnwys gormod o bethau o fewn ei chylch gwaith, ac o ganlyniad,

roedd sefyllfa wedi codi lle roedd Cymunedau yn Gyntaf yn ei chael hi'n anodd cyrraedd ei thargedau gwreiddiol.

*I think it was seen as a bit of a "will solve all problems" you know? And that wasn't the case and I think that has been part of the downfall of the programme really - that it was seen as the answer to everything and it could never ever tackle the wider poverty agenda.*

3.16 Yn yr un modd ag y nodwyd yn yr adran flaenorol bod ailstrwythuro'r rhaglen yn ystod 2012-13 wedi bod yn broblem o ran ymgysylltu â'r gymuned, teimlai Corff Cyflawni Arweiniol arall fod newidiadau o ran bwriad y rhaglen wedi arwain at rwystrau o ran gweithio mewn partneriaeth; yn gyntaf fel rhaglen ar gyfer cynhyrchu cymunedol, yna fel menter i drechu tlodi ac yn olaf fel rhaglen sy'n canolbwyntio'n bennaf ar gyflogaeth. Roedd canfyddiad ymhlith mwy nag un Corff Cyflawni Arweiniol bod cwmpas y rhaglen wedi symud i fenter sy'n seiliedig ar gyflogaeth yn bennaf. Yn ôl un cynrychiolydd o Gorff Cyflawni Arweiniol roedd y dulliau mesur canlyniadau cyflogadwyedd yn golygu ei bod yn anodd cynnal cyfranogiad rhai partneriaid oherwydd nad oedd eu meysydd gwaith o reidrwydd yn cyfrannu at yr agenda gwrthdlodi.

3.17 Fodd bynnag, roedd Corff Cyflawni Arweiniol arall yn teimlo bod mwy o ffocws yn benodol o ran cymorth cyflogaeth wedi cynorthwyo'r rhaglen mewn gwirionedd ac ymdriniodd â phryderon cynharach ynghylch y rhaglen yn ceisio gwneud gormod o bethau i ormod o bobl:

*…we'd really narrowed down over the past couple of years to try and focus everything around supporting employability and not so much about trying to be everything to everyone.*

3.18 Yn ogystal â hyn, cododd Corff Cyflawni Arweiniol arall y pryder ynghylch adrodd yn erbyn y dulliau mesur canlyniadau caled sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru fel ffactor allweddol i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyfateb â'r partner cywir a sut mae'r gofyniad i weithio tuag at ganlyniadau penodol a fframwaith yn eithaf cyfyngol. Ni chafodd y safbwynt hwn ei nodi fel beirniadaeth o reidrwydd ond teimlwyd y gallai blaenoriaethu mesurau canlyniadau caled olygu bod y rhaglen yn fwy cyfyngedig o ran yr hyn y gallai ei ddarparu o ganlyniad i hyn.

3.19 Nododd Cyrff Cyflawni Arweiniol a oedd wedi symud i ffordd integredig o weithio yn seiliedig ar gynllun sengl / un cynllun o fewn eu hawdurdod lleol sut roedd hyn wedi cynorthwyo dull gwell o ymgysylltu â phartneriaid a gweithio mewn partneriaeth. Roedd hyn am fod eu strwythur rheoli a'r broses o gyfuno rhai timau wedi galluogi gweithio'n fwy hyblyg ar draws clystyrau.

*… because we've put in the single plan we were able to go to partners and put in commissioning arrangements across the whole of the programme which from my point of view has been much better for the most strategic partnership working arrangements than we had previously in the programme.*

*…with the one plan we were finding it easier to engage with partners because it made it simpler…*

**Ymgysylltu â'r gymuned**

3.20 Archwiliodd y cyfweliadau brofiadau Cyrff Cyflawni Arweiniol o ddau fath o ymgysylltu â'r gymuned. Yn gyntaf, yn nhermau'r gymuned yn helpu i bennu **cyfeiriad ar lefel strategol** ar gyfer prosiectau a rhaglenni – felly'r ffordd y gellid annog y gymuned i helpu i lunio a chynllunio pa wasanaethau a ddarperir. Ac yn ail, **cyfranogiad unigol** mewn gwasanaethau – y ffyrdd y gall gweithwyr cymunedol hwyluso mynediad at wasanaethau i bobl leol.

*Ymgysylltu ar lefel strategol*

3.21 Adroddodd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod y gymuned yn dylanwadu ar gyfeiriad strategol y rhaglen yn eu Cyrff Cyflawni Arweiniol er bod consensws cyffredinol wedi amlygu bod hyn yn nodwedd gryfach o'r rhaglen cyn y gwaith ailstrwythuro yn 2012-13 pan oedd strwythur Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei arwain yn bennaf gan y gymuned. Fodd bynnag, nodwyd bod y rhan y mae'r gymuned yn ei chwarae ar lefel strategol yn un o nodweddion parhaus y rhaglen mewn sawl ffurf, gan gynnwys byrddau, fforymau ac ymgynghoriadau clystyrau, grwpiau ffocws a gwerthusiadau.

3.22 Roedd rhai Cyrff Cyflawni Arweiniol yn teimlo ei bod yn bwysig rheoli disgwyliadau'r gymuned mewn perthynas â'r hyn y gellid ei gyflawni o fewn cylch gwaith y rhaglen ac felly cwmpas y cyfeiriad strategol. Roedd hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar gydbwyso'r hyn y mae'r gymuned ei eisiau a'r hyn y gellid ei ddarparu o fewn cyfyngiadau ymarferol ac ariannol y cyllid.

*….being realistic with people is about being upfront and telling them what is achievable and what isn't…generally people appreciate and they understand if you say "we only have this to do this, or we can only do ABCD because of the parameters of what we've got money wise or whatever.*

3.23 Cydnabuwyd mewn mwy nag un sgwrs nad yw'r rhaglen yn gallu gorfodi pobl i ymgysylltu â hi. Codwyd pwynt hefyd efallai y byddai pobl wahanol yn y gymuned eisiau ymgymryd â rolau gwahanol fel rhan o'u hymgysylltiad – er enghraifft, efallai y bydd rhai pobl eisiau cymryd rhan mewn gwaith gwirfoddoli ymarferol lle y bydd pobl eraill eisiau bod yn rhan o'r rhaglen ar lefel strategol uwch. Yn y pen draw, fodd bynnag, mae angen cydnabod efallai na fydd rhai pobl eisiau ymgysylltu â'r rhaglen o gwbl, ac mae angen parchu hyn hefyd. Er gwaethaf hyn, fodd bynnag, roedd teimlad ei bod yn bwysig hysbysu'r gymuned am yr hyn sy'n digwydd yn eu hardal a chynnig cyfleoedd iddynt rymuso os oeddent yn dymuno cyfrannu at y broses o gynllunio a chyflawni prosiectau:

*It's about engaging them right at the start and empowering them to deliver things within their own communities - and communication. I think there's nothing worse for a community than finding out there's something going on in their street from a local newspaper etc. without being involved.*

3.24 Adleisiwyd pwysigrwydd cysylltu â'r gymuned leol wrth bennu cyfeiriad y rhaglen mewn nifer o sgyrsiau, a oedd yn amlinellu pwysigrwydd sicrhau bod y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn rhan o'r broses gynllunio.

*What was always my frustration was that people sitting around that table weren't in receipt of the services or the delivery so we'd have people sitting on a partnership or cluster board making decisions about what they wanted in those plans but they weren't actually in receipt of any other the services in that area that we were delivering so I think for me it's more about working with our service users to help shape what we're doing.*

Nododd un Corff Cyflawni Arweiniol fod cymal mewn contractau comisiynu sy'n nodi bod yn **rhaid** i unigolion a fydd yn defnyddio'r gwasanaeth penodol fod yn rhan o'r broses o gynllunio'r prosiect:

*…we've built that into some of our contracts for example if we commission in the voluntary sector to deliver some youth activities it's built in  there that they have to plan with those young people during the year what those activities are going to look like…*

*Cymryd rhan ar lefel unigol*

3.25 Yr ail fath o ymgysylltu â'r gymuned a archwiliwyd oedd ar lefel unigol, sef y ffyrdd o ymgysylltu'n llwyddiannus â phobl leol a'u cymell i ddefnyddio'r gwasanaethau a ddarparwyd gan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn eu hardal. Amlinellwyd nifer o elfennau allweddol gan y rheiny a gafodd eu cyfweld mewn perthynas â'r hyn a oedd yn meithrin ymgysylltu'n effeithiol â'r gymuned ar lefel unigol.

3.26 Un pwynt a godwyd mewn perthynas ag ymgysylltu'n weithgar â'r gymuned oedd yr angen i fanteisio ar gyfleoedd i ymweld â grwpiau a rhwydweithiau sefydledig i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymunedau yn Gyntaf. Ymhlith yr enghreifftiau o'r rhain roedd rhwydweithiau pobl hŷn a digwyddiadau a fforymau ar gyfer pobl ag anghenion hygyrchedd, fel unigolion ag anableddau corfforol.  Roedd y Cyrff Cyflawni Arweiniol a grybwyllodd hyn yn teimlo bod y dull hwn yn ffordd ragweithiol o helpu i osgoi dyblygu.

*Take it to them, they already have structures in place and we take what we want to do and talk to them there, in their process, in their meetings, in their events instead of putting on something and expecting them to come to us.*

3.27 Crybwyllwyd yr angen i sicrhau bod staff y rhaglen yn weladwy ac yn hygyrch o fewn y gymuned fel elfen hanfodol o ran meithrin ymddiriedaeth, yn ogystal â chael presenoldeb corfforol y gall pobl gysylltu ag ef. Gellid cynorthwyo hyn drwy ddefnyddio adeiladau a chanolfannau (asedau cymunedol) lle y gall defnyddwyr gwasanaethau fynd i amgylchedd sy'n groesawgar ac sydd â'r diben penodol o fod yn rhywle sy'n darparu gwybodaeth.

*…they know there is a building, there is an environment that they feel welcome in, they are able to go in and they are able to ask for any type of support and whether it's something we can give or whether it's something we can signpost to that facility is there and we recognise the importance of that.*

Teimlwyd hefyd bod cael sgwrs un-i-un gydag aelodau o'r gymuned yn agwedd werthfawr ar ymgysylltu ag unigolion.

*…we openly have individual meetings with members of the community. Last week for example one of the community members came in, had a cup of coffee with myself and one of the senior officers and spoke to us about the projects and what they feel could be done to improve the environment further… I think within this locality they've had that consistency in that they know they can pick the phone up.*

Trafodir syniadau eraill mewn perthynas ag asedau cymunedol o fewn cymunedau a dyfodol asedau cymunedol yn yr adran nesaf ar bontio / diddymu Cymunedau yn Gyntaf yn raddol.

3.28 Pwynt a godwyd droeon gan nifer o'r rheiny a gafodd eu cyfweld oedd y dull y dylid ei ddilyn er mwyn osgoi gwneud i aelodau o'r gymuned deimlo eu bod yn cael eu "targedu" yn benodol ar gyfer rhaglen cyflogadwyedd neu drechu tlodi wrth geisio eu hannog i ymgysylltu â gwasanaethau. Amlygodd y rheiny a gafodd eu cyfweld fod yr agweddau canlynol yn hanfodol ar gyfer sicrhau ymgysylltu â'r gymuned: y broses o ddatblygu perthnasau go iawn ac ymddiriedaeth gyda'r gymuned, deall yr hyn sy'n bwysig iddynt yn eu hardal a sicrhau bod cyfranogwyr yn teimlo fel pe bai sefydliadau partner yn gwrando arnynt ac yn gwerthfawrogi eu cyfraniadau.

*It's communication – it's making it accessible for people … I think just having things that people can get involved in just like events so they don't feel like they're specifically being targeted – they're just coming along as part of a family event – I think the community events side of things is very important.*

3.29 Elfen arall sydd ynghlwm wrth sicrhau ymgysylltu'n gyson â'r gymuned a godwyd gan nifer o Gyrff Cyflawni Arweiniol oedd bod ceisiadau i'r gymuned am adborth mewn perthynas â'r rhaglen wedi bod yn ddilys ac nid dim ond rhywbeth symbolaidd. Teimlwyd bod angen gwrando ar adborth os oedd y rhaglen yn gofyn amdano ac nid cynnal y broses er mwyn gallu "ticio blwch" yn unig.

3.30 Mewn un cyfweliad codwyd enghraifft a oedd yn dangos sut y gellid rhyngblethu cyfranogiad ar lefel strategol ac unigol. Nid yw dylanwad y gymuned bob amser yn deillio o lwybr uniongyrchol, ffurfiol ac yn hytrach gellid annog hyn drwy ymgysylltu â phobl drwy lwybrau mwy anffurfiol a dysgu drwy wrando ar brofiadau pobl a deall beth fydd yn eu helpu i symud ymlaen:

*With the health projects we were doing a lot of cooking classes and we learned that the cooking activities were really good for engaging people in the programme that wouldn't come and engage to get something that's a bit more employability type support. Or they don't have the confidence to take part in something that's a little bit more formal in terms of learning and whilst we were measuring and reporting to Welsh Government outcomes around health that wasn't actually our interest because we learnt the cooking activities were really really good for engaging with new people that wouldn't otherwise engage…so that affected our strategic thinking.*

**Pontio / Diddymu yn raddol**

3.31 Roedd cwestiynau'r cyfweliadau a oedd yn ymwneud â phontio a diddymu'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn raddol yn cwmpasu materion fel penderfyniadau ynghylch darparu gwasanaethau yn ystod y broses o symud ymlaen o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a'r ffordd y cafodd y penderfyniadau hyn eu gwneud. Gwnaed ymholiadau penodol ynghylch y cynlluniau yr oedd Cyrff Cyflawni Arweiniol yn eu gwneud ar gyfer dyfodol asedau cymunedol a chyflawni'r Gronfa Etifeddiaeth.

3.32 Disgrifiodd Cyrff Cyflawni Arweiniol ar draws y cyfweliadau y dulliau amrywiol a ddefnyddiwyd i ystyried pa agweddau ar y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a oedd fwyaf hanfodol i'w cynnal yn dilyn y cyhoeddiad. Amlinellodd y rheiny a gafodd eu cyfweld nifer o ffyrdd yr oeddent yn asesu gwybodaeth gan gynnwys cyfweliadau ac ymgyngoriadau â rhanddeiliaid, y gymuned, arolygon, asesiadau o effaith a gwerthusiadau. Yn ogystal â hyn, rhoddodd un Corff Cyflawni Arweiniol fanylion helaeth am y defnydd o systemau rheoli perfformiad a ffurfiau amrywiol o ddata gweinyddol.

*We collated all the data together and we used the data we've got locally so the stats on employment figures, stats around universal credit – benefits data and then we started to align what we were doing against what the strategic outcomes were, so we then prioritised where our services were needed.*

3.33 Defnyddiodd pob Corff Cyflawni Arweiniol ddulliau amrywiol i ddechrau proses ddadansoddi lle y byddai "bylchau o ran darpariaeth" yn ymddangos yn sgil absenoldeb gwasanaethau Cymunedau yn Gyntaf. Roedd hyn yn cynnwys ystyried lle y gallai, neu lle na allai, rhaglenni Llywodraeth Cymru neu sefydliadau partner ymgymryd â'r gwaith o ddarparu gwasanaethau allweddol. Roedd sefydliadau partner yn gallu ymgymryd â'r gwaith o ddarparu gwasanaethau mewn rhai achosion, gan leihau'r pwysau ar y Corff Cyflawni Arweiniol i ddyrannu Cyllid Etifeddiaeth i'r prosiectau hyn.

*…who could we work with for them to be picking up this delivery if we think it is worth while? We worked with lots of partners...schools and found that well actually people did want to invest in this service because they valued it.*

Ystyriwyd hefyd lle roedd gwasanaethau yn cael eu dyblygu ar hyn o bryd a lle roedd mentrau tebyg yn cael eu cynnal a oedd yn darparu gwasanaethau tebyg i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Amlinellodd un Corff Cyflawni Arweiniol sefyllfa lle roedd nifer o fentrau gwahanol mewn un ardal a oedd oll yn darparu'r un fath o wasanaeth mewn perthynas â chynnig cyfleoedd o ran iechyd a ffitrwydd yn y gymuned. Nid oedd llawer o bobl yn manteisio ar wasanaeth Cymunedau yn Gyntaf oherwydd gwasanaethau sy'n bodoli eisoes. O ganlyniad, roedd Cymunedau yn Gyntaf yn gallu diddymu'r rhaglen yn raddol a chyfeirio defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr at y gwasanaethau amgen.

3.34 Amlygodd rhai Cyrff Cyflawni Arweiniol sut roeddent wedi ystyried sgyrsiau un-i-un gydag aelodau o'r gymuned wrth wneud penderfyniadau ynghylch gwasanaethau. Roedd hyn o gymorth iddynt wrth ddeall yr effaith y gallai dileu gwasanaethau ei chael ar aelodau o'r gymuned tra'n ceisio deall y galluoedd sydd ynghlwm o ran partneriaid yn symud ymlaen.

*… a lot of the evidence is down to your sort of one to one informal conversations with people who have accessed the programme and the benefits it's made to them. Within this particular programme we've had some quite hard hitting outcomes where individuals have said the programme has had a massive impact on their wellbeing when they've been in quite a dark place … So we base the continuation on obviously the clients and what they've identified as the need but also the speaking to partners and looking at services within the area and identifying that this was potential gap.*

3.35 Ymhlith yr ystyriaethau eraill a grybwyllwyd gan Gyrff Cyflawni Arweiniol roedd sut y gallent gynorthwyo'r broses o sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir gan ddarparwyr eraill yn gynaliadwy ar ôl i gyllid Cymunedau yn Gyntaf ddod i ben:

*…who might be able to pick up on some of that work – which of our partners might be able to support this to move forward? Or how in the meantime this year can we support community groups to become sustainable so we can step away? So we have where possible looked at sustainability of projects and how we're able to support valuable work to continue even if it's not us doing it or not us leading on it.*

Darparwyd enghreifftiau o hyn gan rai Cyrff Cyflawni Arweiniol ac roeddent yn cynnwys cefnogi sefydliadau partner i ddatblygu eu sgiliau a dod yn hunangynhaliol:

*…we try and support capacity, we've been trying to lever in consultancy and professional support to do things like business planning, funding application , mitigations and things like that.*

3.36 Yn y cyfweliadau hefyd holwyd ynghylch asedau cymunedol a sut roedd Cyrff Cyflawni Arweiniol yn bwriadu rheoli'r rhain yn sgil y broses o ddiddymu'r rhaglen yn raddol / pontio. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod asedau cymunedol yn bwysig yn eu hardaloedd ac yn werthfawr i'r gymuned.

*We recognise that one of the strengths of our delivery of a community based programme is that you're based in the community. People that live in communities*

*…recognising the fact the services are also sometimes not as important as the infrastructure so the ability for people to walk through an open door and not get turned away – have someone listen to their issues and signpost them direct or just listen to them – so we've tried to keep our infrastructure in place.*

3.37 Disgrifiodd mwy nag un Corff Cyflawni Arweiniol eu dull o reoli eu hasedau cymunedol yn y cyfnod pontio fel "rhesymoli" asedau cymunedol. Roedd hyn yn cynnwys ystyried rhoi terfyn ar ddefnyddio adeiladau o ganlyniad i leihau nifer y staff, diffyg defnydd neu oherwydd y byddai cyllid yn cael ei ddefnyddio'n well drwy ddarparu'r gwasanaeth mewn ardal arall lle y gellid ei ddarparu ochr yn ochr â gwasanaethau eraill.

*What buildings can we sustain? Are there any other ways we can generate income? – Maybe co-location? These sorts of questions…*

3.38 Mewn gwrthgyferbyniad â'r meddyliau hyn, dywedodd un Corff Cyflawni Arweiniol ei fod wedi ceisio mabwysiadu dull mwy hyblyg mewn perthynas ag asedau cymunedol oherwydd roedd teimlad nad oeddent yn gwneud y defnydd gorau o gyllid. Yn hytrach, byddent yn blaenoriaethu'r defnydd o adeiladau a oedd ar gael am ddim neu ddefnyddio adeiladau partneriaid lle roedd angen. Teimlwyd bod hyn yn fanteisiol drwy fod yn fwy hyblyg ac eang mewn cyferbyniad â phennu gwasanaethau mewn nifer o leoliadau penodol. Adleisiwyd pwysigrwydd bod yn hygyrch i'r gymuned gan Gorff Cyflawni Arweiniol arall a oedd yn rhesymoli ei asedau cymunedol ei hun ond teimlwyd ei bod yn bwysig o hyd bod y gwasanaethau wedi'u lleoli mewn mannau a fyddai'n hawdd i'r gymuned gael mynediad iddynt.

*…what we're trying to do is use the community buildings –some of, not all because it's not possible, but use them still as surgeries so people can still be based out there periodically once a week, twice a week – so have those surgeries with people in the community.*

3.39 Holodd y cyfwelydd a fyddai'r gronfa etifeddiaeth yn cael ei darparu yn yr un ffordd â'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Dehonglwyd hyn gan rai cyfwelwyr yn nhermau sut y byddent yn dyrannu cyllid y Gronfa Etifeddiaeth ac atebodd eraill yn nhermau'r dull darparu, h.y. a gaiff y cyllid ei ddarparu drwy'r 3ydd sector / awdurdod lleol ac ati. Un thema benodol a ddaeth i'r amlwg mewn perthynas â dyrannu cyllid y gronfa etifeddiaeth oedd na ddylid ystyried y

gronfa ar wahân i fathau eraill o gyllid a gwasanaethau. Yn hytrach, roedd rhai Cyrff Cyflawni Arweiniol yn ceisio ystyried y cyllid ochr yn ochr â rhaglenni eraill sy'n rhan o agenda datblygu teuluoedd cydnerth a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Amlygodd nifer o ymatebwyr mewn amrywiol ffyrdd mai blaenoriaeth iddynt hwy oedd gwneud defnydd effeithiol o'r Gronfa Etifeddiaeth drwy sicrhau y byddai'n cydblethu â rhaglenni eraill a'u cefnogi i symud ymlaen yn y tymor hwy.

*… so what we would do would be to commission in some of the voluntary sector that currently deliver family type activities for us now. We would continue to commission them in to do some family engagement for us going forward – so generate referrals onto our programmes but also as that early intervention or early engagement before they need to be referred onto more evidence based parenting programmes and things such as flying Start and Families First.*

Fel y disgrifiwyd yn gynharach yn yr adran hon, disgrifiodd nifer o gynrychiolwyr ffyrdd yr oeddent yn asesu lle y byddai bylchau posibl o ran darpariaeth a sut y gallai'r Gronfa Etifeddiaeth helpu i liniaru'r rhain yn y ffordd fwyaf cynaliadwy ac economaidd.

3.40 Nid oedd llawer o gonsensws o ran sut y byddai'r gronfa etifeddiaeth yn cael ei darparu. Fodd bynnag, o'r rheiny a grybwyllodd hyn, cafwyd amrywiaeth o ymatebion yn amrywio o' r un fath, rhai nodweddion tebyg a nododd un Corff Cyflawni Arweiniol y byddai nifer o newidiadau yn debygol o ddigwydd oherwydd syniadau newydd ynghylch sut y dylid darparu'r cronfeydd yn effeithiol.

3.41 Yn gyffredinol, ysgogodd y cwestiynau a ofynnwyd am y broses bontio a'r cynlluniau i ddiddymu'r rhaglen yn raddol ymatebion darbodus a ddangosodd ddyhead i gadw'r agweddau gorau ar y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a sicrhau bod camau strategol yn cael eu cymryd yn y cyfnod pontio i helpu i feithrin cynaliadwyedd ar gyfer mentrau trechu tlodi yn y dyfodol yng Nghymru.

**Tîm Pontio Cymunedau yn Gyntaf**

3.42 Roedd adran olaf y canllaw trafod yn holi Cyrff Cyflawni Arweiniol am eu profiadau gyda thîm Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru. Nod y cwestiynau oedd deall safbwyntiau o ran yr elfen o gymorth a fu'n ddefnyddiol yn ôl y Cyrff Cyflawni Arweiniol a hefyd yr hyn y gellid ei wella drwy gydol y broses o weithio gyda thîm Cymunedau yn Gyntaf. Roedd y cyfweliadau hefyd yn ceisio cael adborth ar yr hyn a oedd yn angenrheidiol ym marn y Cyrff Cyflawni Arweiniol er mwyn sicrhau pontio effeithiol, wrth ystyried eu profiadau o'r rhaglen.

3.43 Yn gyffredinol, teimlwyd bod adborth y Cyrff Cyflawni Arweiniol ar y tîm Cymunedau yn Gyntaf yn gadarnhaol. Ymddengys fod hygyrchedd y tîm a natur gyfeillgar ei aelodau wedi cynorthwyo'r broses bontio a diddymu yn raddol yn fawr: "I know that someone's there I can speak to the whole time which is great". Roedd nifer o arweinwyr y Cyrff Cyflawni Arweiniol hefyd yn teimlo bod ganddynt berthynas waith dda â'r tîm Cymunedau yn Gyntaf:

*I think we've got an excellent relationship with the transition team … if ever I've got any queries I just pick the phone up and speak to them, they email me back, I know they're always there for any support.*

3.44 Roedd llawer o'r Cyrff Cyflawni Arweiniol yn teimlo bod cyfarfodydd rhwydwaith rhanbarthol y Cyrff Cyflawni Arweiniol a hwyluswyd gan y tîm Pontio Cymunedau yn Gyntaf yn ddefnyddiol ac yn gyfle da i rannu arferion gorau ac i ganfod sut y mae ardaloedd eraill yn rheoli eu prosesau o ddiddymu'r rhaglen yn raddol a phontio. Cafwyd adborth cadarnhaol hefyd o ran y cyfarfodydd pontio bob chwe mis yr oedd modd i Gyrff Cyflawni Arweiniol eu cynnal yn unigol gyda'r tîm Pontio Cymunedau yn Gyntaf.

*The regular transition meetings are a really good thing and give me an opportunity to discuss my delivery on a one to one basis or with the team. The LDB meetings - the regional LDB meetings I think have been really good for me because I understand what other people are doing and where they're coming from and we can share best practice.*

*I think having the meetings is an excellent approach if you have any queries or question and then having the joint meetings is also a good mechanism because you get to speak to other areas.*

3.45 Fodd bynnag, amlygodd rhai Cyrff Cyflawni Arweiniol eu bod yn teimlo bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn araf o ran darparu gwybodaeth. Er bod symiau dangosol y gronfa etifeddiaeth wedi cael eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2017 a'r egwyddorion, a ddrafftiwyd mewn partneriaeth â Chyrff Cyflawni Arweiniol wedi cael eu cyhoeddi ym mis Medi 2017, ni chafodd y canllawiau terfynol eu cyhoeddi tan fis Rhagfyr 2017.

*I think some of the principles and the guidance; if they could have been available a lot earlier they would have made the direction of travel a lot easier to go down…*

Ar yr un pryd, roedd y Cyrff Cyflawni Arweiniol yn aros am fanylion ariannol a chanllawiau mewn perthynas â'r grant cyflogadwyedd newydd a oedd hefyd yn destun oedi:

*We know how much funding we're getting for the legacy grant…and the other one then is the employment support grant…but we haven't had a bottom line figure agreed.*

3.46 Yn gyffredinol, roedd pryder hefyd bod y gweithgareddau sydd ynghlwm wrth ddiddymu'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn raddol wedi ychwanegu at y baich ar y staff. Cyflwynodd hyn her i'r Cyrff Cyflawni Arweiniol yn ystod y flwyddyn derfynol:

*I think there is support there to find innovative ways to spend the money to have the best impact on people, but I think being almost expected to deliver the programme as normal when it was anything but normal was a bit different and a bit of a challenge up front because we're still expected to deliver outcomes but actually our staff are having to spend a huge amount of time winding things down.*

3.47 Mewn pwynt arall, amlygwyd y ffordd yr oedd egwyddorion y gronfa etifeddiaeth, yn ôl rhai, yn rhy eang ac amhenodol i helpu'r Cyrff Cyflawni Arweiniol i wneud cynlluniau dyrannu effeithiol cyn i ganllawiau'r gronfa etifeddiaeth gael eu cyhoeddi. Roedd un Corff Cyflawni Arweiniol yn enwedig

yn teimlo y gallai egwyddorion y gronfa etifeddiaeth fod wedi bod yn gyfle i wthio am newid mwy:

*I do think the Welsh Government …just covered everything trying to please everybody… this was an opportunity to be really specific with the legacy fund… its about meeting our duty within the Future Generations and building resilient communities and all the rest of it, so it isn’t about saving a project in one little pot because how’s that going to benefit?*

*…we’ve had the principles the principles don’t really direct – they give us all the tools we need because they don’t really rule anything in and they don’t rule anything out.*

3.48 Er gwaethaf y ffaith bod amseroldeb yn broblem yn ôl llawer o Gyrff Cyflawni Arweiniol, cydnabuwyd ar adegau amrywiol nad oedd hyn o reidrwydd yn rhywbeth yr oedd gan y tîm Pontio Cymunedau yn Gyntaf lawer o reolaeth drosto. Mynegodd llawer o Gyrff Cyflawni Arweiniol hefyd ddealltwriaeth y gallai’r broses o gael cymeradwyaeth ar gyfer dogfennau fod yn llafurus ac roeddent yn deall mai dyma un o nodweddion cyffredin gweithio i’r Llywodraeth.

*If all the information was available from word go, the process would have probably been easier but that’s not the case and I recognise that and that’s not the fault of the Transition team.*

*As I said earlier I understand how things and how time scales are because we’ve worked in this field for so long I get the political element. So as I said earlier the only issue is the timescale stuff and the time it takes.*

3.49 Dywedodd yr holl Gyrff Cyflawni Arweiniol a gafodd eu cyfweld gennym eu bod wedi defnyddio Contract Hyfforddiant a Chymorth Cymunedau yn Gyntaf ar ryw adeg ac y bu’r profiad yn ddefnyddiol. Dywedodd un Corff Cyflawni Arweiniol nad oedd wedi defnyddio’r contract oherwydd nad oedd y cymorth o reidrwydd yn berthnasol i’r gwasanaethau a ddarparwyd ganddo yn ei ardal. Adroddodd eraill eu bod wedi defnyddio’r contract a’i fod yn ddefnyddiol wrth ddatblygu elfennau cynaliadwyedd o fewn eu partneriaid trydydd sector. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, fodd bynnag, mynegodd un cynrychiolydd y gallai’r amser a gymerodd CGCC i ddatblygu dealltwriaeth o sut mae pob Corff Cyflawni Arweiniol gyflwyno her.

*I find it quite frustrating that we use a contract to come in and it takes them quite  a while to understand the way we're delivering  before they can come to a resolution to be able to support us sometimes I think it's a little bit slow.*

## 4. Casgliadau

4.1 Yn gyffredinol, darparodd yr wyth person a gafodd eu cyfweld fewnwelediad defnyddiol o'u profiadau o fod yn rhan o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a'r hyn a oedd yn agweddau cadarnhaol a negyddol ar y cyfnod o ddiddymu'r rhaglen yn raddol / pontio. Er bod yr adroddiad hwn yn seiliedig ar farn wyth cynrychiolydd o'r Cyrff Cyflawni Arweiniol yn hytrach na phawb, mae'n darparu cyfle i ddysgu gwersi.

4.2 Mae'n bwysig bod y wybodaeth llawr gwlad a gafwyd yn ystod cyfnod y rhaglen yn cael ei chofnodi gyda'r bwriad o fod yn sail i fentrau eraill. Canmolwyd elfennau o'r cymorth a roddwyd gan y tîm Pontio Cymunedau yn Gyntaf ond awgrymwyd rhai gwelliannau hefyd. Mae'r adborth hwn yn werthfawr ar gyfer dysgu gwersi o'r cyfnod o bontio a diddymu'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn raddol.

4.3 Roedd yr adborth ar strwythur llywodraethu Cymunedau yn Gyntaf yn gymysg er gwaethaf y canfyddiad bod y strwythur Cyrff Cyflawni Arweiniol / Clystyrau yn ffordd effeithiol o gynnal y rhaglen. Un o'r prif faterion oedd y newid canfyddedig yn y pwyslais ar y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar ôl gwaith ailstrwythuro 2012, a oedd yn golygu ei bod yn anodd, yn ôl rhai o'r rheiny a gafodd eu cyfweld, cael cydbwysedd rhwng canllawiau rhagnodol a chaniatáu i gymunedau lunio eu prosiectau a'u rhaglenni eu hunain.

4.4 Roedd llawer o gynrychiolwyr y Cyrff Cyflawni Arweiniol yn teimlo bod cyfathrebu cyson a ffocws ar gael nodau a blaenoriaethau ar y cyd yn bwysig er mwyn gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol. Nid oedd ymchwil gyda sefydliadau partner o fewn cylch gwaith yr adroddiad hwn ond gellid ystyried hyn mewn ymchwil ansoddol yn y dyfodol; gyda ffocws ar weithio mewn partneriaeth o fewn strwythurau llywodraethu newydd ar ôl Cymunedau yn Gyntaf.

4.5 Roedd y cynrychiolwyr o'r Cyrff Cyflawni Arweiniol a gafodd eu cyfweld yn gallu rhannu cyfoeth o wybodaeth mewn perthynas â pha elfennau allweddol a oedd yn arwain at ymgysylltu â'r gymuned ar lefel strategol a lefel unigol. Yn gyffredinol, roedd llawer o'r rheiny a gafodd eu cyfweld yn teimlo bod ymgysylltu â'r gymuned ar lefel strategol yn elfen bwysig o'u rhaglen ac roeddent yn ceisio sicrhau cyfranogiad y gymuned wrth bennu cyfeiriad y

rhaglen gymaint â phosibl o fewn cylch gwaith y strwythur llywodraethu. Nododd y cyfweliadau hefyd brofiadau o sicrhau ymgysylltu ar lefel unigol mewn amrywiaeth o ffyrdd. Roedd llawer yn teimlo mai'r elfennau allweddol oedd meithrin ymddiriedaeth gydag aelodau'r gymuned ac osgoi gwneud i unigolion deimlo eu bod yn cael eu targedu'n bwrpasol gan ymyriadau "gwrthdlodi".

4.6 Crybwyllwyd nifer o ddulliau wrth drafod sut mae cynrychiolwyr y Cyrff Cyflawni Arweiniol a'u timau ehangach wedi bod yn gwneud penderfyniadau ar ddyfodol gwasanaethau yn eu hardaloedd. Roedd rhai o'r rhain yn cynnwys defnyddio data ac ystyried dulliau mesur canlyniadau. Ymhlith y dulliau eraill roedd ymgyngoriadau â sefydliadau partner ac aelodau o'r gymuned leol er mwyn deall pa effaith y gallai cau gwasanaethau ei chael ar y boblogaeth leol. Disgrifiodd llawer o'r rheiny a gafodd eu cyfweld fod llawer o'r trafodaethau yn canolbwyntio ar a fyddai "bylchau" ar ôl os byddai gwasanaethau yn cael eu dileu. Lle nad oedd yn bosibl i sefydliadau partner gefnogi darpariaeth neu lle nad oedd gwasanaethau tebyg eisoes yn cael eu cynnal yn yr ardal, dyma lle byddai angen ystyried defnyddio Cyllid Etifeddiaeth.

4.7 Yn gyffredinol, roedd teimlad ar draws y cyfweliadau ei bod yn bwysig cynnal elfennau gorau'r gwaith a gynhaliwyd gan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf mewn cymunedau lleol a pharatoi'r ffordd ar gyfer cynaliadwyedd yn y dyfodol ar ôl i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf gael ei diddymu'n llwyr. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr eu bod wedi defnyddio contract Hyfforddiant a Chymorth Cymunedau yn Gyntaf ar gyfer hyn drwy gynorthwyo'r gwaith o hyfforddi aelodau o sefydliadau partner.

4.8 Roedd yr adborth ar y tîm Pontio Cymunedau yn Gyntaf yn gadarnhaol mewn sawl ffordd. Roedd llawer o gynrychiolwyr y Cyrff Cyflawni Arweiniol yn teimlo ei bod yn hawdd siarad ag aelodau'r tîm a'u bod yn ceisio bod mor gymwynasgar â phosibl. Fodd bynnag, teimlai'r rheiny a gafodd eu cyfweld nad oedd amseru cyhoeddi'r canllawiau terfynol a'r dyraniadau cyllido, boed ar gyfer y Gronfa Etifeddiaeth neu'r Grant Cyflogadwyedd, yn ddelfrydol a bod hyn wedi achosi rhai anawsterau pan oedd angen i awdurdodau lleol gynllunio fisoedd ymlaen llaw.

4.9 Roedd y rhan fwyaf o'r rheiny a gafodd eu cyfweld yn teimlo bod y cyfarfodydd rhwydwaith gyda Chyrff Cyflawni Arweiniol eraill a'r cyfarfodydd rheolaidd bob chwe mis gyda'r tîm Pontio Cymunedau yn Gyntaf yn ddefnyddiol. Roeddent yn teimlo bod hyn yn rhoi cyfle iddynt rannu gwybodaeth a thrafod cynlluniau pontio a diddymu yn raddol gydag ardaloedd eraill yn ogystal â'r cyfle i ymdrin â phryderon mewn sefyllfa un-i-un gydag aelod o'r tîm Pontio.

4.10 Er bod canfyddiadau'r adroddiad hwn yn seiliedig ar sampl fach o gynrychiolwyr o'r Cyrff Cyflawni Arweiniol, mae'n darparu mewnwelediad defnyddiol o'u profiadau o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn ystod cyfnod y rhaglen yn ogystal â darparu adborth gwerthfawr i Lywodraeth Cymru ar y broses o ddiddymu'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn raddol a'r cymorth a dderbyniwyd i wneud hyn ar lefel leol.

## 5. Cyfeiriadau


Cymunedau yn Gyntaf – yr hyn a ddysgwyd – adroddiad llawn (2017). Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau. Ar gael ar: http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11238/cr-ld11238-w.pdf

Cymunedau yn Gyntaf – yr hyn a ddysgwyd (2017). Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau. Ar gael ar:

Cymunedau yn Gyntaf: Adroddiad Terfynol y Gwerthusiad o'r Broses – Crynodeb Gweithredol. Ipsos Mori a Wavehill Consulting (2015); ar gael ar: http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/150226-communities-first-process-evaluation-summary-cy.pdf

Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Y Cyfarfod Llawn 14/02/2017: Ar gael ar: http://record.assembly.wales/Plenary/4083#A485

Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol. Llywodraeth Cymru (2017) Ar gael ar: http://gov.wales/about/programme-for-government/?lang=cy

Gwerthuso Cymunedau yn Gyntaf (2011). http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11141/cr-ld11141-w.pdf

Llywodraeth Cymru. Results Based Accountability approach-Ensuring Communities First delivers outcomes for Wales. Accessed via: https://www.tyf.com/wp-content/uploads/2015/casestudies/english/Communities%20First%20RBA.pdf

Swyddfa Archwilio Cymru. Cymunedau yn Gyntaf. Caerdydd (2009) Ar gael ar: https://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20090805103031/http://www.wao.gov.uk/assets/welshdocuments/Communities_First_cym.pdf

Symud Cymru Ymlaen: Y Rhaglen Lywodraethu. Llywodraeth Cymru (2017) Ar gael ar: http://gov.wales/about/programme-for-government/?lang=cy

## Atodiad A

### Cyflwyniad

1. "Fedrwch chi sôn ychydig am eich rôl a'r rhan y gwnaethoch ei chwarae yn rhaglen Cymunedau yn Gyntaf?"

### Strwythur Cymunedau yn Gyntaf

2. "Beth yw eich profiad o strwythur llywodraethu Cymunedau yn Gyntaf? O safbwynt Cyrff Cyflawni Arweiniol, clystyrau ac ati."
3. "Beth yw eich profiad o weithio mewn partneriaeth fel rhan o raglen Cymunedau yn Gyntaf?"
4. "Yn eich barn chi, beth yw'r elfennau pwysicaf ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol?"

### Ymgysylltu â'r Gymuned

5. "Yn eich barn chi, ydy Cymunedau yn Gyntaf wedi llwyddo sicrhau ymgysylltu â'r gymuned ar lefel strategol?"
6. "Pa wersi ydych chi wedi'u dysgu o hyn?"
7. "Sut rydych chi'n meddwl y gellir sicrhau bod y gymuned wir yn cymryd rhan?"
8. "Yn eich barn chi, beth yw'r ffyrdd gorau o annog cyfranogwyr i ymgysylltu â gwasanaethau penodol?"
9. "Yn eich barn chi, beth yw'r tair elfen bwysicaf o ymgysylltu?"

### Diddymu Cymunedau yn Gyntaf yn raddol

10. "Wrth ystyried diddymu Cymunedau yn Gyntaf yn raddol – sut y gwnaed penderfyniadau yn eich ardal am wasanaethau/asedau cymunedol?"
11. "A fyddwch chi'n darparu'r gronfa Etifeddiaeth yn yr un ffordd â rhaglen Cymunedau yn Gyntaf (h.y. naill ai'n uniongyrchol gan Awdurdod Lleol, gan gynllun grant, neu gytundeb gyda thrydydd parti i gynnal y prosiect/gweithgareddau.)?"

### Pontio

12. "Beth yw eich profiad o'r gefnogaeth pontio a gawsoch gan Lywodraeth Cymru?"
13. "Pa elfennau wnaeth weithio'n dda ac oedd yn ddefnyddiol?"
14. "Pa elfennau sydd angen eu gwella?"
15. "Yn eich barn chi, beth sy'n allweddol er mwyn pontio'n effeithiol?"
16. "Ydych chi wedi defnyddio "contract Hyfforddiant a Chymorth" Cymunedau yn Gyntaf? – beth oedd eich rhesymau dros ei ddefnyddio/peidio â'i ddefnyddio?"